


Sut oedd cwmni yn teithio yn nyddiau Shakespeare? Pan oedd y theatrau'n cau yn Llundain, rydym yn gwybod y byddai criw bychan o actorion, a oedd yn perfformio amryw o rannau mewn tair neu bedair o ddramâu, yn gadael y ddinas ac yn mynd ar daith. Gwyddom hefyd pan fyddent yn cyrraedd cartref o bwys mai'r penteulu oedd yn dewis pa ddrama neu adloniant y byddent yn ei pherfformio.

Felly, bydd theatr y Globe Shakespeare yn torri tir newydd rhwng Mai ac Awst 2018, gydag wyth actor yn mynd ar daith gan gynnig dewis o dair drama i gynulleidfaoedd: The Merchant of Venice, The Taming of the Shrew a Twelfth Night. Byddant yn perfformio'r tair drama yn y Globe cyn mynd ar daith genedlaethol a rhyngwladol, a'r perfformiadau ym Mhontio yw'r unig ddyddiadau yng Nghymru.

Hefyd, i barhau â'r traddodiad, bydd aelodau mwyaf pwerus y tŷ, sef y gynulleidfa yn yr achos yma, yn cael dewis pa ddrama yr hoffent ei gweld, drwy bleidleisio ar y noson. Bydd hynny'n sicr yn ychwanegu at y cyffro.

Dyddiadau Pontio: 7-9 Mehefin 2018

How did a company tour in Shakespeare's day? We know that when the theatres closed, a small group of actors, juggling a variety of roles in three or four plays from their extensive repertoire, would leave London and head off on tour. We also know that the choice of play or entertainment was left to the most powerful person of the household.

So following in the tradition of their resident playwright, and in a first for Shakespeare's Globe, between May and August 2018, a company of 8 actors will offer audiences a choice of three plays: The Merchant of Venice, The Taming of the Shrew and Twelfth Night. They will perform all three at the Globe before setting out on a national and international tour, calling here at Pontio for their only dates in Wales.

In keeping with tradition - and with thrilling unpredictability - the choice of play will be put back into the hands of the most powerful members of the house: the audience.

Pontio Dates: 7-9 June 2018

Yma, yn y cwpwrdd gwydr ac ar y sgrin, rhown gipolwg i chi o'r hyn sydd y tu ôl i'r llenni ...

Dyma'r dylunydd Andrew D Edwards yn trafod ysbrydoliaeth ei ddyluniadau ac yn datgelu rhai o'r heriau sy'n codi wrth ddylunio ar gyfer taith ryngwladol. Mae'r syniadau hyn yn cael eu cyflwyno law yn llaw â modelau, toriadau o wisgoedd a lluniau'r cynhyrchiad sy'n ymwneud â gwaith Andrew fel dylunydd y tair drama. Mi glywn ni hefyd gan yr actorion - sut mae cofio'r llinellau meithion lu 'na?!

I gyd-daro ag ymweliad y Globe â Phontio, mae Archifdy Prifysgol Bangor yn cyflwyno arddangosfa o lawysgrifau a llyfrau prin o gyfnod Shakespeare. Mae'r arddangosfa yng nghoridor Siambr y Cyngor, Prif Adeilad y Celfyddydau o'r 4ydd tan y 15fed o Fehefin.

Here, in the glass case and on the screen, we give you a glimpse behind the scenes...

Designer Andrew D Edwards discusses the inspiration behind his design and reveals some of the challenges faced when designing for an international tour. These insights are presented alongside models, costume cuttings and production photographs relating to Andrew's work as designer of the three plays. We also hear from the actors – just how do they remember all their lines?!

To coincide with the Globe's visit to Pontio, Bangor University Archives present an exhibition of manuscripts and rare books from the Shakespearean period. The exhibition is located in the corridor of The Council Chamber, Main Arts Building from the 4th – 15th June.

Pontio
Prifysgol Bangor University
SHAKESPEARE'S GLOBE